# STRATEGAETH FEICIO CAERDYDD

## 2016-2026

DRAFFT



CARDIFF
CAERDYDD

# Sut i Ddefnyddio'r Strategaeth Hon

Mae'r Strategaeth Feicio yn sefydlu gweledigaeth Cyngor Dinas Caerdydd ar gyfer beicio a'r camau y byddwn yn eu cymryd dros y 10 mlynedd nesaf i'w gwireddu. Mae'r Strategaeth yn dangos sut bydd beicio yn gwneud cyfraniad pwysig i'n gweledigaeth o wneud Caerdydd y brifddinas orau i fyw ynddi yn Ewrop.

Does neb yn adnabod y ddinas yn well na pobl sy'n byw, gweithio, astudio ac yn cwblhau eu busnes yma. Dyna pam ein bod wedi ymgysylltu ag ystod eang o bobl, sefydliadau a busnesau wrth gynhyrchu'r Strategaeth. Mae Cyflwyniad y Strategaeth yn sefydlu'r tueddiadau trafnidiaeth presennol a'r rhai a ragwelir yn y dyfodol, y rhesymau pam fod ein gweledigaeth feicio yn gwneud synnwyr mewn dinas fel Caerdydd, a'r heriau sy'n ein hwynebu wrth wneud y newidiadau fydd eu hangen.

Mae'r bennod ar Seilwaith yn amlinellu ansawdd y llwybrau beicio fydd eu hangen er mwyn adeiladu rhwydwaith feicio i bob oedran a gallu a'r camau byddwn yn eu cymryd i wireddu hyn. Mae'r bennod ar Feysydd Ffocws yn cymryd golwg agosach ar sut y gall beicio gefnogi tair agwedd bwysig ar fywyd dinas: ysgolion; gweithleoedd a masnach, yn ogystal ag amlinellu rhai o'r camau y mae Cyngor Dinas Caerdydd yn eu cymryd i hyrwyddo beicio ymhlith ei weithlu ei hun. Mae'r Cynllun Gweithredu yn sefydlu'r camau sydd i'w cymryd i wireddu'r weledigaeth a'r amserlen i'w chyflawni.

## Dogfennau Cysylltiedig

**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL CAERDYDD 2006-2026**

**CYNLLUN TRAFNIDIAETH LEOL CAERDYDD 2015-2020**

**STRATEGAETH DRAFNIDIAETH CAERDYDD**

**MAP RHWYDWAITH INTEGREDIG CAERDYDD (DRAFFT)**

**LLAWLYFR TIR Y CYHOEDD CAERDYDD**

**CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATEGOL CANLLAW DYLUNIO PRESWYL CAERDYDD**

**LLAWLYFR CANLLAW CYNLLUNIO TEITHIO ACTIF AR STRYDOEDD RHIFYNNAU 1 A 2 LLYWODRAETH CYMRU**





# Cynnwys


**1 CYFLWYNIAD**

Tueddiadau Presennol 8

Datblygiadau’r Dyfodol 9

Pam Fod Beicio yn Hanfodol 10

Heriau 12

Ein Gweledigaeth 13

**2 SEILWAITH**

Ein Blaenoriaethau Seilwaith 16

Rhwydwaith Feicio Caerdydd 17

Safonau Seilwaith 18

Camau Nesaf 22

**3 PARTNERIAETHAU ALLWEDDOL**

Ysgolion 26

Gweithleoedd 28

Masnach 30

Cyngor Dinas Caerdydd 32

**4 CYNLLUN GWEITHREDU**

Cynllun Gweithredu 36

Llinell Amser y Strategaeth Feicio 38






# 1. Cyflwyniad


Mae beicio ar gynnydd yng Nghaerdydd, ond, mae yna sawl her sydd angen eu hateb i allu gwireddu'n llawn y buddiannau gall beicio eu cynnig i'n dinas.

# Tueddiadau Presennol





## TUEDDIADAU CYFFREDINOL

- Mae Caerdydd yn tyfu. Dros y 10 mlynedd diwethaf mae poblogaeth Caerdydd wedi cynyddu 11%. Mae nifer y swyddi wedi cynyddu 13%.
- Mae nifer y bobl yng nghanol y ddinas wedi cynyddu 58%. Yr un adeg mae teithiau i ganol y ddinas mewn ceir wedi gostwng 30% a theithiau ar feic wedi codi 86%




## BEICIO I'R GWAITH

- Cyfradd preswylwyr Caerdydd sy'n teithio I'r gwaith ar feic yw 9.2%, o'i gymharu â 56.1% sy'n dod mewn car (2011-2015 ar gyfartaledd treigl).
- Mae cyfradd y preswylwyr sy'n teithio i'r gwaith ar feic wedi mwy na dyblu ers 2005.





## MARCHNAD DARGED

- Mae 28% o breswylwyr Caerdydd yn dweud nad ydyn nhw'n beicio, ond carent wneud hynny. Mae hon yn farchnad darged sylweddol y gellid ei chyrchu pe byddai amodau beicio yn cael eu gwella.
- Mae mwyafrif y teithiau ceir sy'n dechrau yng Nghaerdydd o 'r fath belter y byddai'n gyfforddus i'w feicio. Byddai 52% o deithiau ceir yn 2011 wedi gallu cael eu cwblhau ar feic mewn 20 munud neu lai.


# Datblygiad i'r dyfodol

## TWF A RAGWELIR 2006-2026




## TWF A RAGWELIR


- Disgwylir i boblogaeth Caerdydd dyfu 79,918 ymhellach rhwng 2006 a 2026.
- Yn ystod y cyfnod hwn, disgwylir i nifer y swyddi yng Nghaerdydd gynyddu 40,000
- Disgwylir i nifer y teithiau o Gaerdydd ac o fewn y ddinas dyfu mwy nag 14%




## GWELEDIGAETH DRAFNIDIAETH

- Gweledigaeth y Cyngor yw y bydd 50% o bob taith yn cael eu cwblhau mewn modd cynaliadwy erbyn 2026.
- Mae'r weledigaeth hon wedi ei sefydlu yng Nghynllun Datblygu Lleol y Cyngor ac mae'n hanfodol er mwyn cwmpasu'r lefelau twf a ragwelir ar gyfer y ddinas o fewn y rhwydwaith drafnidiaeth.

## CYFRAN Y MODD BEICIO




## GWELEDIGAETH FEICIO

- Er mwyn cyfrannu at ein targed modd hollt cyffredinol, gweledigaeth y Cyngor yn ôl ei Strategaeth Feicio yw dyblu nifer y teithiau ar feic erbyn 2026, gan barhau a'r duedd gybyddol ers 2005.
- I gyflawni hyn, rhaid I'r rhwydwaith feicio allu cynnal 38,000 o deithiau ychwanegol ar feic bob dydd

# Pam mae beicio yn hanfodol

## ADEILADU DINAS BYW

Mae dinas sy'n dda ar gyfer beicio yn ddinas ddeniadol i fyw a buddsoddi ynddi. Nid yw cynyddu faint o feicio a wneir yn amcan ar ei ben ei hun. Mae nifer o ddinasoedd Ewropeaidd y mae ganddynt enw da am ansawdd y bywyd gynigiant i ddinasyddion hefyd yn cynnig adnoddau gwych ar gyfer beicio.

## AMSER TEITHIO

Mewn amgylchedd trefol dwys fel Caerdydd, gall beicio gynnig y modd cyflymaf o deithio o un lle i'r llall. Gellir beicio **taith o 3 milltir** ar gyflymder cyfforddus o fewn **20 munud**, sy'n gyfnod cystadleuol o'I gymharu â char, yn enwedig adeg tagfeydd cyfnodau prysur.

## DEFNYDD EFFEITHIOL AR OFOD TREFOL

Mae angen llai o ofod ar feicio ar y rhwydwaith priffyrdd nag y mae ei angen ar gar preifat. Gellir parcio **12 beic** yn ddiogel **yn y gofod y mae ei angen i barcio un car**.

## BUDD ECONOMAIDD

Ar gyfer y lefelau presennol o feicio yng Nghaerdydd, mae yna arbediad o:

**£14 miliwn** y flwyddyn i unigolion a'r economi leol ar gyfer teithiau ar feic yn hytrach na mewn car[1]

**£16 miliwn** y flwyddyn o fudd i iechyd ar gyfer pob taith ar feic[2]



1 Cardiff Bike Life 2015: Arbedion i unigolion a'r economi leol ar gyfer teithiau ar feic yn hytrrach na mewn car. Mae gwerth yr arbedion yn deillio o WebTAG

2 Cardiff Bike Life 2015: Budd iechyd am bob trip ar feic wedi ei gyfrifo gan HEAT

### RHEOLI TWF

Mae effeithlonrwydd beicio fel dull o deithio yn ei wneud yn fodd realistig o reoli'r cynnydd mewn teithiau ar rwydwaith trafnidiaeth Caerdydd wrth i'r ddinas dyfu. Drwy roi'r seilwaith cywir yn y llefydd iawn byddai modd i lawer o'r teithiau sy'n dechrau o fewn Caerdydd gael eu gwneud ar feic yn hytrach na mewn car. Mae rhwydwaith priffyrdd y ddinas eisoes dan bwysau, yn enwedig yn ystod yr oriau brig. 'Dyw ehangu gofod ffyrdd i hwyluso traffig ychwanegol ddim yn fforddiadwy na chynaliadwy. Felly, wrth i'r ddinas dyfu, mae angen ailddyrannu gofod ffyrdd o geir preifat i ddulliau trafnidiaeth mwy effeithiol gan gynnwys troedffyrdd, llwybrau beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus i alluogi mwy o bobl i symud o amgylch y ddinas mor gyflym ac effeithiol â phosib. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod darpariaeth ddigonol yn parhau ar gyfer y teithiau y mae car preifat yn unig ddewis rhesymol ar eu cyfer.

### IECHYD

Mae buddion iechyd a lles ymarfer corff rheolaidd yn hen gyfarwydd ac mae beicio ar gyfer teithiau bob dydd yn ffordd ddidrafferth o wireddu'r buddion hyn. Mae **ffitrwydd pobl sydd 10 mlynedd yn iau** gan rywun sy'n beicio'n rheolaidd. Bydd gwella ansawdd yr awyr yn lleol drwy leihau teithiau car diangen hefyd yn cael effaith sylweddol ar iechyd.

### DYLETSWYDD TEITHIO LLESOL

Mae dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i gynllunio ar gyfer a sicrhau gwelliannau parhaus yn narpariaeth adnoddau beicio dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Gall beicio hefyd gyfrannu'n sylweddol at bob un o'r saith nod llesiant fel y'u sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

CYFEILLGAR I BLANT

CYSYLLTIADAU DA

IACHUS

GWYDN

HAPUS

DIOGEL

DENIADOL

GLÂN

CYFEILLGAR I DEULUOEDD

BYWIOG

HAWDD SYMUD O GWMPAS

LLEWYRCHUS

## … gan fod dinasoedd sy'n dda i beicioynddynt yn rhai da i fyw ynddynt


DDE

Mae'r Map Llwybrau Presennol yn dangos llwybrau sy'n ateb y safonau gofynnol yn unol â Chanllaw Dylunio Teithio Llesol Llywodraeth Cymru ac yn dangos natur dameidiog y rhwydwaith presennol.


ISOD

Y buddsoddiad blynyddol presennol mewn trafnidiaeth yng Nghaerdydd.

£39.24
Y PRESWYLYDD
POB DULL



£3.84
Y PRESWYLYDD
BEICIO




# Yr Heriau

## RHWYDWAITH DAMEIDIOG

Mae'r Rhwydwaith Beicio presennol yn dameidiog ac anghyflawn, fel y gwelir ar Fap Llwybrau Presennol 2015 sydd ond yn dangos y llwybrau sy'n ateb safonau gofynnol Canllaw Dylunio Llywodraeth Cymru. Gellid gwella rhai llwybrau drwy fynd i'r afael â chymalau cymharol fyr sydd ar goll. Fodd bynnag, darpariaeth gyfyngedig iawn sydd gan lawer o ardaloedd y ddinas ar gyfer beicio, yn enwedig yn y dwyrain.

## ÔL-OSOD SEILWAITH YN Y STRYDOEDD PRESENNOL

Mae angen i goridorau trefol cyfyngedig ateb sawl gofyn sy'n gwneud ôl-osod seilwaith beicio yn heriol. Mae datblygiadau tai yng Nghaerdydd sydd wedi'u hadeiladu â mynediad cyfyngedig i drafnidiaeth gyhoeddus a dim cysylltiadau beicio pwrpasol o gwbl.

## DIOGELWCH: GWIRIONEDDOL A CHANFYDDIADOL

Mae preswylwyr Caerdydd o'r farn fod beicio yn sylweddol llai diogel na dulliau eraill o drafnidiaeth. Er bod niferoedd y bobl sy'n beicio ar gyfer teithiau bob dydd yn tyfu yng Nghaerdydd, er mwyn cynnal y twf hwn, mae'n amlwg bod angen mynd i'r afael â'r materion diogelwch, y rhai gwirioneddol a'r canfyddiadol.

## ADNODDAU

Mae gwariant cyfalaf blynyddol presennol Cyngor Caerdydd ar seilwaith beicio, gan gynnwys cyllid cyfalaf y Cyngor a chyllid grant allanol, gyfystyr ag ychydig dan £4 y preswylydd, rhan o gyfanswm gwariant o ychydig dros £39 y pen gan y Cyngor ar bob dull o deithio. Mae hyn wedi cyllido nifer o welliannau diweddar ar draws y rhwydwaith, ond nid yw'n ddigonol i ddatblygu rhwydwaith cynhwysfawr o lwybrau safon uchel. Mae 78% o breswylwyr Caerdydd yn dymuno gweld mwy o fuddsoddi ar feicio yng Nghaerdydd.

## DATBLYGIADAU MEWN DINASOEDD ERAILL

Mae 21% o breswylwyr Caerdydd ar hyn o bryd yn beicio unwaith yr wythnos, sy'n cymharu'n dda â dinasoedd fel Caeredin (21%) a Bryste (23%). Fodd bynnag, mae nifer o ddinasoedd yn y DU wedi gweld cynnydd diweddar mewn projectau seilwaith beicio sydd eto i'w gweld yn digwydd yng Nghaerdydd a bydd hyn o bosibl yn effeithio ar dueddiadau yn y dyfodol. Mae lefel y buddsoddi cyfalaf mewn beicio hefyd yn isel o'i gymharu â dinasoedd Ewropeaidd sydd ag enw da am feicio. Mae Amsterdam a Copenhagen yn buddsoddi tua £18 y person yn y boblogaeth bob blwyddyn. Mae tua 50% o breswylwyr Copenhagen yn beicio i'w gwaith, o'i gynmharu â 9.2% yng Nghaerdydd.

# Ein Gweledigaeth

## Ein gweledigaeth ni yw gwneud Caerdydd yn ddinas sy’n beicio lle mae beicio yn ddewis cyffredin, ymarferol a diogel ar gyfer teithiau byrion i bobl o bob oedran a gallu a dyblu nifer y teithiau a wneir ar feic yn y ddinas erbyn 2026.

**Bydd y camau allweddol canlynol yn amlinellu sut y gwireddwn ein gweledigaeth:**

### SEILWAITH

- **Gwneud newid sylfaenol drwy integreiddio beicio i’r gwaith o gynllunio trafnidiaeth a gofod trefol**
- **Darparu seilwaith o’r ansawdd cywir er mwyn darparu ar gyfer pob oed a gallu.**

### PARTNERIAETHAU ALLWEDDOL

- **Gweithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys gweithleoedd, ysgolion a masnachwyr i gynnig adnoddau diwedd taith a hyrwyddo beicio i breswylwyr ac ymwelwyr.**
- **Gwella integreiddiad beicio gyda’r modd y mae’r cyngor yn cyflawni ei waith craidd.**






## 2. Seilwaith

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth ar gyfer beicio, byddwn yn rhoi'r seilwaith iawn yn y lle iawn ar gyfer beicwyr o bob oed a gallu.

# Ein Blaenoriaethau Seilwaith




## CORIDORAU ALLWEDDOL

Caiff cynlluniau eu datblygu i greu dau brif lwybr corridor enghreifftiol ar gyfer pob oed a gallu beicio, er mwyn cysylltu safleoedd datblygu newydd â phrif gyrchfannau ledled y ddinas, gan gynnwys canol y Ddinas a'r Bae.

## CANOL Y DDINAS

Caiff cynlluniau eu datblygu i wella cysylltiadau beicio trwy ganol y ddinas fel rhan o Strategaeth Symudedd Canol y Ddinas.

## CYMALAU COLL

Caiff cymalau coll ledled y rhwydwaith eu nodi ac eir i'r afael â nhw, gan gynnwys cynlluniau i fynd i'r afael chywiro toriadau i'r rhwydwaith, ynghyd â gwelliannau cymunedol lleol i amodau beicio ar strydoedd lleol.

## CYNNAL A CHADW

Caiff cynnal a chadw llwybrau beicio ei flaenoriaethu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gynnig amodau diogel a chyfforddus ar gyfer beicio

## DATBLYGIAD NEWYDD

Bydd seilwaith beicio o ansawdd uchel wedi ei integreiddio'n llawn i unrhyw ddatblygiad o'r dechrau'n deg, er mwyn creu rhwydwaith mewnol helaeth o lwybrau a chysylltiadau allan i'r rhwydwaith beicio ehangach.

## INTEGREIDDIO GYDA GWAITH PRIFFYRDD

Pa adeg bynnag y bydd gwaith yn digwydd ar briffyrdd, bydd y cyfle'n cael ei fachu lle bo hynny'n berthnasol i gwblhau gwelliannau i'r adnoddau beicio ar yr un pryd.


## CYNNWYS RHANDDEILIAID

Bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys preswylwyr a busnesau lleol, yn rhan bwysig o ddylunio atebion i gael y canlyniadau gorau posib.

## GWEITHGAREDD HYRWYDDO

Bydd rhoi seilwaith beicio newydd ar waith yn mynd law yn llaw â gweithgareddau hyrwyddo er mwyn cael y gwerth gorau o'r buddsoddiad yn y seilwaith.

# Rhwydwaith Beicio Caerdydd




**Mae Rhwydwaith Beicio Caerdydd yn amlinellu rhwydwaith cynhwysfawr o lwybrau beicio yn cysylltu cymunedau sy'n bodoli eisoes a safleoedd datblygu strategol gyda chyrchfannau allweddol ledled y ddinas.**

Mae'r llwybrau hyn yn cynnwys:

- Llwybrau oddi ar y ffordd a llwybrau ag arwyddion ar y ffyrdd sy'n bodoli eisoes
- Llwybrau a ddiffiniwyd yn y Cynllun Rhwydwaith Beicio Strategol (Enfys) 2011 sydd yn cael eu datblygu neu heb eu gorffen eto
- Llwybrau ychwanegol y mae eu hangen i gau'r bylchau a gwella cysylltiadau ledled y ddinas

## CYNLLUN RHWYDWAITH BEICIO

Mae Cynllun Rhwydwaith Beicio draft wedi ei ddatblygu yn nodi'r llwybrau sydd i'w datblygu dros y 10 mlynedd nesaf a thu hwnt. Mae hyn yn cynnwys dau lwybr corridor yn mynd o'r gogledd i'r de ac o'r dwyrain i'r gorllewin a fydd yn cysylltu safleoedd datblygu strategol â chymunedau sy'n bodoli eisoes a phrif gyrchfannau. Y prif lwybrau coridor hyn fydd ein blaenoriaeth gyntaf er mwyn creu llwybrau corridor parhaus sy'n cynnig yr amodau gorau ar gyfer beicio o bob oed a gallu.

Byddwn hefyd yn ceisio mynd i'r afael â chymalau coll ledled y rhwydwaith ehangach i wella amodau beicio a chynyddu'r dewisiadau ar gyfer teithio bob dydd, a mynd i'r afael â thorriadau ar lwybrau mewn lleoliadau allweddol trwy gyfrwng cynllun fydd wedi ei flaenoriaethu fydd yn cynnwys:

- Gwelliannau diogelwch i brif gyffyrdd
- Adnoddau ar wahan ar brif ffyrdd mewn lleoliadau allweddol
- Creu llwybrau byrion newydd, gan gynnwys pontydd, gwrthlifau, a mynediad beicio trwy ben draw ffyrdd
- Gwelliannau ar gyfer beicio ar ffyrdd ar strydoedd tawelach, gan gynnwys cyfyngiadau 20mya a diogelu traffig.

# Safonau Seilwaith

## Beicio ar Gyfer Pob Oed a Gallu



Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth o wneud beicio yn ddewis rhesymegol a chyffredin ar gyfer teithiau byrion **pobl o bob oed a gallu** a dyblu nifer y teithiau beicio yng Nghaerdydd, mae'n hanfodol creu seilwaith sy'n rhoi hyder i bawb i feicio yng Nghaerdydd, gan gynnwys oedolion nad ydynt yn beicio'n aml a phlant ysgol.


Bydd **gwelliannau i'r seilwaith** ar gyfer beicio hefyd yn gwella'r amgylchedd ar gyfer defnyddwyr eraill y ffyrdd sy'n agored i niwed, gan leihau'r gwrthdaro rhwng cerddwyr a beicwyr ar lwybrau sydd ar wahan a lleihau cyflymder cerbydau ar lwybrau beicio ar y ffordd.

Mae diogelwch beicio yn bryder mawr i breswylwyr Caerdydd. Mae'n hanfodol bod llwybrau beicio yng Nghaerdydd yn cynnig **amgylchedd diogel**, gan gynnwys gwahanu rhag traffig cerbyd lle mae angen hynny.


Er mwyn i feicio fod yn **ddewis teithio deniadol**, rhaid bod y rhwydwaith beicio yn ddiogel i'w ddefnyddio. Mae hyn yn golygu ei fod yn mynd i'r afael â'r canfyddiad gwael sydd ynghylch diogelwch, drwy wahanu lle bo angen hynny, wyneb llwybrau o ansawdd a diogon o le ar gyfer y niferoedd fydd yn defnyddio'r llwybr.

Un o fuddiannau beicio mewn amgylchedd trefol yw ei fod yn cynnig **teithio o un pwynt i'r llall.** Er mwyn gwireddu'r budd hwn, rhaid i lwybrau fod wedi eu cysylltu'n dda, gyda rhwydwaith drwchus o lwybrau a chysylltiadau o ansawdd uchel rhwng llwybrau beicio a'r rhwydwaith sylfaenol o strydoedd lleol. Rhaid i lwybrau beicio fod yn gyfleus i'w defnyddio, gan ddarparu llwybrau uniongyrchol i leoliadau a chyfeirio hawdd ei ddilyn.


Fel gydag unrhyw ddull o deithio, mae'r **amser y daith** yn bwysig wrth feicio. Mae arbediad o funud ar daith feic werth 12.5c y person fesul taith. Amser y daith yw'r ffactor pwysicaf gan breswylwyr Caerdydd wrth ddewis sut y meant am deithio i'r gwaith.





MAE 33% O'R FARN BOD Y BEICIO'N DDA NEU'N DDA IAWN




MAE 25% O'R FARN BOD DIOGELWCH BEICO I BLANT YN DDA NEU'N DDA IAWN




MAE 82% O'R FARN BOD ANGEN GWELLA AR DDIOGELWCH




MAE 50% O FEICWYR O'R FARN TAW YR AMSER GYMER Y DAITH YW'R DYLANWAD MWYAF AR SUT MAEN NHW AM DEITHIO I'R GWAITH

# Mesurau

**Bydd Cyngor Dinas caerdydd yn ymgorffori’r mesurau canlynol yn nyluniad y cynllun yn ôl yr angen er mwyn sicrhau darpariaeth ar gyfer pob oed a gallu beicio. Caiff Arweiniad pellach ei ddatblygu er mwyn sefydlu sut y dylid rhoi’r mesurau ar waith yng Nghaerdydd er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig seilwaith o’r ansawdd iawn er mwyn gallu gwireddu ein gweledigaeth feicio, gan roi ystyriaeth i Arweiniad Dylunio Llywodraeth Cymru**

CREDYD FFOTOGRAFF: GEHL ARCHITECTS



LONYDD BEICIO WEDI EU DIOGELU GAN FANNAU PARCIO

Mae lonydd beicio wedi eu diogelu gan fannau parcio yn nodwedd a all wella diogelwch a chysur llwybr.

CREDYD FFOTOGRAFF: GEHL ARCHITECTS



TRAC BEICIO YN CROESI STRYD OCHR, COPENHAGEN

Mae gwahanu rhwng traffig cerbydau a cherddwyr yn cynyddu cysur yr holl defnyddwyr. Mae blaenoriaeth dros strydoedd ochr a threfniadau gwrthlif yn lleihau amseroedd teithio.

## DIOGELWCH

- Gwahanu rhag traffig cerbyd ar brif ffyrdd
- Cyfyngiadau o 20mya a diogelu traffig ar strydoedd sydd â llai o draffig
- Dechrau buan i feicwyr ger cyffyrdd a signalau
- Lonydd beicio wedi eu diogelu gan barcio

## CYSUR

- Gwahanu rhwng traffig cerbydau a cherddwyr ar brif strydoedd
- Gwahanu rhag cerddwyr ar lwybrau oddi ar y ffordd
- Lle digonol ar gyfer nifer presennol defnyddwyr y llwybr a’r nifer yn y dyfodol
- Wyneb y llwybr o ansawdd rhedeg da
- Goleuo addas
- Cyflwyno cyfyngiadau cyflymder o 20 mya

## CYSYLLTEDD

- Dwysedd dda i’r rhwydwaith
- Cysylltiadau o ansawdd da rhwng llwybrau a wahanwyd rhag y ffyrdd, llwybrau oddi ar y strydoedd a ffyrdd bychain â mesurau diogelu traffig i greu rhwydwaith cydlynol

## CYFLEUSTRA

- Llwybrau uniongyrchol at gyrchfannau
- Parcio beiciau mewn lleoliadau cyfleus
- Llwybrau sy’n hawdd eu deal

## AMSER TEITHIO

- Lle digonol ar gyfer nifer defnyddwyr y llwybrau
- Newidiadau i signalau i leihau amseroedd aros
- Rhoi blaenoriaeth i lwybrau beicio a throedffyrdd a wahanwyd dros ffyrdd ochr
- Beicio gwrthlif ar strydoedd unffordd
- Caniatau beicio drwy ben draw strydoedd
- Codi pontydd er mwyn lleihau ar nifer y toriadau ar lwybrau gan rwsytrau naturiol neu rai a wnaed gan ddyn

# Gwahanu

**Er mwyn cynnig seilwaith beicio sy'n cwrdd ag anghenion pob oed a gallu, byddwn yn darparu rhyw ffurf ar wahanu rhag cerbydau modur lle bo angen.**

Mae'r penderfyniad ynghylch yr angen i wahanu ai peidio yn dibynu ar lif a chyflymder y cerbydau ill dau. Pan fo llif a chyflymder yn isel gall beicwyr rannu'r gofod â cherbydau modur yn ddiogel. Mae'r tabl isod yn gosod y trothwy lle dylid ystyried gwahanu oddi wrth gerbydau modur, yn seiliedig ar arfer da o Ddenmarc a'r Iseldiroedd.[1]

| TERFYN CYFLYMDER | LLIF CERBYDAU (DYDDIOL 2 FFORDD) | TRINIAETH |
|---|---|---|
| 20MYA | Llai na 1000 o gerbydau'r dydd | • Ni fydd angen gwahanu<br>• Efallai y bydd angen mwy o fesurau gostegu traffig i sicrhau y cedwir o fewn y terfyn cyflymder os yw'r cyflymder a fesurir yn dynodi bod problem. |
| | Rhwng 1000 a 3000 o gerbydau'r dydd | • Mae'n bosibl y bydd angen gwahanu.<br>• Os penderfynir peidio â gwahanu, efallai y bydd angen mesurau gostegu traffig ychwanegol i sicrhau y cedwir o fewn y terfyn cyflymder os yw'r cyflymder a fesurir yn dynodi bod problem. |
| | Dros 3000 o gerbydau'r dydd | • Fel rheol bydd angen gwahanu |
| 30MYA AC YN UWCH | Unrhyw faint | • Bydd angen gwahanu<br>• Os yw'r llif yn ysgafn, dylid ystyried gostwng y terfyn cyflymder, gyda mesurau gostegu traffig ychwanegol os oes angen er mwyn sicrhau y cedwir at y terfyn cyflymder. |



PHOTO CREDIT: GEHL ARCHITECTS

CYCLE STREET, COPENHAGEN

Mewn strydoedd â llif a chyflymder traffig isel, gall beicwyr rannu'r gofod gyda cherbydau modur. Efallai y bydd angen gostegu traffig er mwyn sicrhau bod cerbydau modur yn teithio ar gyflymder addas i gynnal amgylchedd gyfforddus i feicio, er enghraifft trwy gyfrwng triniaeth 'Stryd Feicio'

1 Bicycle Planning and Design Guidelines 2012 (drafft), Urban Systems for City of Vancouver


# Beicio Mewn Datblygiadau Newydd

**Er mwyn rheoli effaith datblygiad newydd ar y rhwydwaith trafnidiaeth yng Nghaerdydd, rhaid i ddatblygiadau newydd gael eu cynllunio o'r dechrau'n deg er mwyn hwyluso beicio teithiau dyddiol i bob oed a gallu.**

Mae hyn yn gofyn darpariaeth rhwydwaith fewnol helaeth o lwybrau, cysylltiadau i lwybrau y tu hwnt i'r datblygiad ei hun, ac adnoddau beicio gan gynnwys parcio ym mhob cyrchfan o fewn y datblygiad. Dylai rhwydweithiau beicio mewnol fod ar y raddfa ac o ansawdd sy'n ddigonol i sicrhau mae beicio yw'r dewis teithio hawsaf a mwyaf ymarferol ar gyfer teithiau byr lleol gan gynnwys cyrchfannau cyfagos fel siopau ac ysgolion.

### LLWYBRAU BEICIO GER PRIFFYRDD

Yr opsiwn trin a ffefrir ar gyfer priffyrdd trwy safleoedd datblygu yw llwybr beicio dwy ffordd yn rhedeg gerllaw'r ffordd, wedi ei wahanu rhag cerddwyr. Dylai'r llwybr beicio roi digon o led ar gyfer nifer y defnyddwyr, fydd yn golygu lleiafswm lled o 3 metr. Dylid rhoi blaenoriaeth i lwybrau beicio a throedffyrdd dros ffyrdd llai er mwyn lleihau amseroedd teithio a chynnal cyfforddusrwydd y llwybr.




## CYSYLLTEDD


Rhaid i lwybrau beicio i leoliadau o fewn datblygiadau fod mor uniongyrchol a phosib er mwyn cwtogi amser teithio a gwneud beicio'r dewis teithio mwyaf ymarferol ar gyfer teithai lleol, byr. Efallai na fydd llwybrau beicio uniongyrchol yn dilyn rhwydwaith y prif ffyrdd ac fe allant gynnwys cyfuniad o lwybrau cynt trwy strydoedd tawelach, rhannau oddi ar y ffordd a thramwyo posib trwy ben draw strydoedd. Fodd bynnag, er mwyn cynnal rhwydwaith cyflawn sy'n hwyluso pob taith o un pwynt i'r pwynt arall o fewn datblygiad, nid yw darparu llwybrau uniongyrchol i ffwrdd o'r briff ffordd ddim yn dileu yr angen i ddarparu adnoddau ar wahan ar hyd prif ffyrdd. Rhaid i gysylltiadau rhwng llwybrau beicio wedi eu gwahanu a'r rhwydwaith strydoedd sylfaenol fod yn ddiogel, yn uniongyrchol ac yn hawdd eu dilyn, er mwyn creu adnodd deniadol sy'n hawdd i'w ddefnyddio ac sy'n lleihau amseroedd teithio. Bydd yr un egwyddorion ar waith gyda chysylltiadau yn cysylltu'r datblygiad newydd â'r rhwydwaith feicio ehangach a gofynnir i'r datblygwyr gyfrannu at y rhain yn ystod y broses gynllunio.

# Camau Nesaf

- **Datblygu dyluniadau ar gyfer dau brif goridor, fel y cam cyntaf at greurhwydwaith ledled y ddinas ar gyfer pob oed a gallu:**
  - Gogledd – De: Yn cysylltu safleoedd strategol yng ngogledd – ddwyrain Caerdydd â Bae Caerdydd drwy Ganol y Ddinas
  - Dwyrain – Gorllewin: Yn cysylltu safleoedd strategol yn Llaneirwg â safleoedd yng ngogledd-orllewin Caerdydd drwy Ganol y ddinas
- **Datblygu Strategaeth Symudedd Canol y Ddinas ar gyfer pob modd o deithio gan gynnwys dyluniadau cysyniadol o gysylltiadau beicio trwy Ganol y Ddinas.**
- **Datblygu cynllun wedi ei flaenoriaethu i fynd i'r afael â chymalau coll ar draws y rhwydwaith feicio ehangach a dechrau cael gwared ar y bylchau.**
- **Datblygu canllawiau newydd ar gyfer dyluniad y seilwaith feicio yng Nghaerdydd, gan dalu sylw i Arweiniad Dylunio Teithio Llesol Llywodraeth Cymru.**
- **Datblygu a darparu rhaglen hyfforddi ar osod dyluniad seilwaith beicio da ar waith.**
- **Cyflwyno'r Cynllun Rhwydwaith Terfynol fel rhan o'r Map Rhwydwaith Integredig i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo (Medi 2017).**
- **Sefydlu cyllideb wedi ei diogelu er cynnal y llwybrau beicio presennol.**
- **Lansio cynllun llogi beiciau stryd cyhoeddus.**
- **Rhoi hyb beicio ar waith gyda darpariaeth fecio ddiogel i 500 o feiciau fel rhan o ail-ddatblygiad y Sgwâr Canolog.**
- **Rhoi cynllun ehangu'r parthau cyfyngiad 20mya ar waith yn raddol.**








# 3. PARTNERIAETHAU ALLWEDDOL

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i hyrwyddo beicio ar gyfer siwrneau bob dydd.

# Ysgolion






MAE 16% O'R HOLL SIWRNEAU A WNEIR AR DDIWRNOD GWAITH YN SIWRNEAU HEBRWNG (TEITHIAU A WNEIR I HEBRWNG RHYWUN ARALL)




Mae 4% o blant Caerdydd ar hyn o bryd yn teithio i'r ysgol ar gefn beic, ond dywed 25% y carent deithio ar feic i'r ysgol. I'r gwrthwyneb mae 41% o blant Caerdydd yn teithio mewn car i'r ysgol. Mae 16% o'r holl siwrneau a wneir ar ddiwrnod gwaith yn siwrneau hebrwng (teithiau a wneir i hebrwng rhywun arall) ac fe gaiff ychydig dros hanner y rhain eu gwneud fel gyrrwr car. Os gall plant deithio i'r ysgol yn annibynnol, mae hyn yn arbed arian ac amser i'w rhieni.

Mae canllawiau'r Llywodraeth yn nodi y dylai plant a phobl ifanc ymroi i ymarfer corff eithaf dwys neu ddwys iawn am o leiaf 60 munud y dydd. Gall beicio i'r ysgol ac ar gyfer siwrneau byr eraill gyfranu at gynyddu faint o ymarfer corff mae plant yn ei wneud. Mae'r buddion i blant a phobl ifanc ddaw o feicio yn cynnwys gwell iechyd esgyrn a chardiofasgwlaidd, cynnal pwysau iach, cynyddu hunan hyder a datblygu sgiliau cymdeithasol.

# Hyrwyddo Beicio Mewn Ysgolion

## HYFFORDDIANT BEICIO

Mae Cyngor Caerdydd yn cynnig hyfforddiant beicio i bob ysgol gynradd yng Nghaerdydd i roi'r sgiliau i blant sydd eu hangen arnynt ar gyfer beicio ar siwrneau byrion fel beicio i'r ysgol neu i siopau lleol. Caiff hyfforddiant ei gynnig hefyd yn ystod gwyliau'r ysgol ar gyfer y plant hynny sy'n methu mynychu'r hyfforddiant trwy gyfrwng eu hysgolion.

## TEITHIAU LLESOL

Caiff project Teithio Llesol yng Nghymru ei ddarparu gan Sustrans i roi gwybodaeth, hyfforddiant, a chefnogaeth i ddisgyblion, athrawon a rhieni i alluogi mwy o blant i deithio i'r ysgol ar gefn beic, sgwter neu gerdded. Caiff ysgolion eu cefnogi'n ddwys am gyfnod o dair blynedd er mwyn gosod sylfaen dda i gael dod yn ysgolion teithiau llesol annibynnol. Ar hyn o bryd mae 10 o ysgolion Teithiau Llesol yn derbyn cefnogaeth yng Nghaerdydd a 35 o ysgolion eisoes wedi cwblhau eu rhaglen 3 blynedd ac yn parhau i dderbyn cyngor drwy gyfrwng y Gwasanaeth Cynghori.

## Ysgol Gynradd Yr Eglwys Newydd

"Yn Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd mae grŵp o blant ym mlwyddyn chwech sy'n gyfrifol am hyrwyddo beicio. Y Criw Beicio yw eu henw. Bob tymor mae digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar feicio, er enghraifft mae gennym wasanaeth boreol i gyflwyno'r Criw Beicio, rydym yn cynnal cystadlaethau fel dylunio poster i ddangos sut mae aros yn ddiogel ar gefn beic, mae gennym ddigwyddiad "Blingio'r Beic" ar gyfer y Nadolig a byddwn yn cynnal Brecwast Beicio bob tymor.

Yn ystod tymor yr haf rydym yn cynnal clwb beicio i blant ym mlwyddyn dau. Rydym wedi cynnwys rhieni yn ein digwyddiadau ac rydym wedi defnyddio'r gwneuthurwr smwddis/beic yn y ffair ysgol.
Ein digwyddiad amlycaf yw ein pythefnos Pedalu Mawr pan gaiff pawb eu hannog i feicio i'r ysgol cyn amled â phosib."

## Camau Nesaf

- **Datblygu rhaglen fanwl i hyrwyddo beicio i'r ysgol**
- **Nodi cyfleon ariannu i wella darpariaeth parcio diogel dan do i feiciau mewn ysgolion.**
- **Nodi a mynd i'r afael â chymalau seilwaith coll i ysgolion presennol, trwy ddatblygu a rhoi'r Cynllun Rhwydwaith Beicio ar waith, gan gynnwys ymgysylltu'n weithredol â phlant ysgol mewn cydweithrediad â Sustrans trwy gyfrwng project Ysgolion Llesol Llywodraeth Cymru.**
- **Nodi cyfleoedd i wella cymalau seilwaith i safleoedd ysgol newydd mewn cydweithrediad â'r project Trefniadaeth Ysgolion.**

# Gweithleoedd


Mae 216,000 o swyddi wedi eu lleoli yng Nghaerdydd, gan wneud cyfraniad hanfodol i'r economi leol a'r ansawdd bywyd gaiff ei gynnig i'n preswylwyr. Preswylwyr Caerdydd sy'n gyfrifol am 61% o'r teithiau cymudo i swyddi a leolir yng Nghaerdydd.

Caiff tua 9% o deithiau i'r gwaith eu gwneud gan breswylwyr Caerdydd ar gefn beic ar hyn o bryd ac mae bron i hanner yr holl deithiau beic gaiff eu gwneud gan breswylwyr Caerdydd at ddibenion swydd. Fodd bynnag mae lle i gynyddu nifer y bobl sy'n beicio i'w gwaith yng Nghaerdydd, oherwydd y gall 56% o breswylwyr gyrraedd eu man gwaith o fewn 20 munud ar gefn beic.

Disgwylir i nifer y swyddi yn Nghaerdydd gynyddu gyda nifer o safleoedd cyflogi newydd o gwmpas, ac yng Nghanol y Ddinas, gan gynnwys ailddatblygu'r Sgwâr Canolog. Mae cynyddu 'r nifer o bobl sy'n beicio i'w gwaith yng Nghaerdydd yn fesur pwysig er mwyn rheoli effiath y twf yma ar y rhwydwaith drafnidiaeth.

Gall beicio gynnig llawer o fuddion i gyflogwyr a chyflogeion yng Nghaerdydd. Mae'n ffordd rwydd o ymgorffori ymarfer corf i'r bywyd dyddiol, sydd o fudd i iechyd a llesiant ac yn arwain at weithlu mwy cynhyrchiol. Mae beicio yn lleihau'r galw am lefydd parcio ceir ac mae parcio ar gyfer beics yn defnyddio llai o le o lawer na pharcio ar gyfer ceir. Gall beicio hefyd gynnig dewis cost effeithiol ar gyfer teithiau busnes dros bellteroedd bach mewn ardaloedd trefol yn sgil y costau rhedeg rhatach ac amserau teithio cystadleuol o'i gymharu â'r car.

I gynyddu'r niferoedd sy'n beicio i'r gwaith a nifer y teithiau busnes, rhaid i'r Cyngor fynd i'r afael â'r dolenni coll yn y rhwydwaith beicio i hwyluso teithiau rhwng lle mae pobl yn byw a gweithio yn y ddinas.  Gall mentrau yn y gweithle sy'n mynd law yn llaw gael y gwerth gorau o unrhyw welliannau i'r seilwaith. Bydd y Cyngor yn parhau i ymgysylltu â chyflogwyr lleol er mwyn nodi mannau i flaenoriaethu gwelliannau a rhannu gwybodaeth ynghylch arfer da ar gyfer mentrau mewn gweithleoedd.




## Mentrau Mewn Gweithleoedd i Gynyddu Beicio:

- Parcio diogel i feiciau
- Cyfleusterau newid a chawodydd
- Cronfa o feiciau ar gyfer teithiau busnes
- Milltiroedd beicio ar gyfer teitiau busnes
- Beiciau yn rhydd o dreth trwy gyfrnwg y cynllun Beicio i'r Gwaith

## BBC

"Yn ein pencadlys presennol yn Llandaf, mae digonedd o lefydd parcio ar y safle. Fodd bynnag, wrth symud i'r Sgwâr Canolog bydd gofyn i staff ystyried ffyrdd eraill o deithio i'r gwaith; gan y byddwn yng nghanol y ddinas bydd ein mannau parcio ni wedi eu cadw ar gyfer gofynion gweithredol a gyrrwyr anabl. Nododd Arolwg Teithio staff bod tua 20% o staff yn ystyried teithio i'r gwaith ar gefn beic ac rydym yn gweithio'n galed i wneud beicio i'r gwaith mor hygyrch a di-drafferth â phosib. Mae ein cynlluniau yn cynnwys parcio diogel i feiciau dan do, cawodydd ac ystafelloedd newid i staff, cypyrddau sy'n cloi ar gyfer offer beic ac ystafell sychu ar gyfer dillad beicio gwlyb."

# Prifysgol Metropolitan Caerdydd

"Prifysgol Metropolitan Caerdydd sydd â'r Grwp Defnyddwyr Beic gweithle mwyaf yng Nghymru gyda dros 300 o'u 1200 o staff yn aml yn beicio i'r gwaith. Caiff y rhif yma ei chwyddo gan dros 700 o'r myfyrwyr presennol sydd wedi gofyn i gael mynediad i storfa beiciau diogel y Brifysgol yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Arweiniod cynnydd yn y galw am barcio ynghyd â pharcio anystyriol at gyflwyno parcio wedi ei reoli ar gyfer ceir. Rhoddodd hyn gyfle i'r Brifysgol ddiogelu cyllid a chynyddu ei ffocws ar deithio cynaliadwy."

Mae'r Brifysgol wedi canolbwyntio'n barhaus ar feicio dros y 15 mlynedd diwethaf drwy sawl menter a gwariant cyfalaf gan gynnwys:

- Cyflwyno naw storfa feiciau bob tywydd
- Cyfleusterau newid, cawodydd a chypyrddau cloi arGampws Llandaf
- Brecwast am ddim ar 28 diwrnod o'r flwyddyn i staff sy'n beicio i'r gwaith
- Cynnig Cloeon Diogel D Gradd 10 am ddisgownt
- Digwyddiadau beicio cymdeithasol gan gynnwys 'Beicio gyda'r Deon'
- Cynnal ac ehangu'r cynllun Beicio i'r Gwaith
- Dosbarthu mapiau Cerdded a Beicio'r Cyngor i fyfyrwyr a staff
- Dr Bike, Nod Diogelu'r Heddlu a Gweithdai Cynnal a Chadw bob tymor i fyfyrwyr a staff
- Clirio blynyddol o wastraff dail oddi ar bont Rhodfa'r Gorllewin i wneud beicio'n fwy diogel
- Clirio beiciau sydd wedi eu gadael yn flynyddol a'u rhoi i Weithdy Beicio Caerdydd

**"Rwyf wedi bod yn cymudo o Fryste ar drên a beic ar gyfartaledd 3 gwaith yr wythnos ers mis Mai diwethaf. Rwyf wedi lleihau fy milltiroedd blynyddol a chostau cynnal a chadw'r car a thollau'r bont ayb. Rwyf wedi llwyddo i gynnal lefel ffitrwydd gwell gan fy mod wedi parhau i feicio trwy gydol y gaeaf. Cyn cymudo ar gefn beic dim ond yn beicio ar benwythnosau y byddwn yn beicio yn y gaeaf. Rwyf hefyd yn ei chael yn gyfleus iawn i gyfuno ymarfer corff â chymudo."**

*John Cappock, Prif Swyddog Gweithredol, Prifysgol Metropolitan Caerdydd*

# Camau Nesaf

- **Gwella'r ddarpariaeth wybodaeth a chynghori i weithleoedd ar arfer da ar hyrwyddo beicio i gyflogeion.**
- **Sefydlu Grŵp Beicio Busnes i rannu gwybodaeth a chyfathrebu'r anghenion busnes i'r Cyngor.**
- **Nodi a mynd i'r afael ag unrhyw gymalau seilwaith coll i brif weithleoedd, trwy ddatblygu a rhoi'r Cynllun Rhwydwaith Beicio ar waith.**
- **Gwella'r hyrwyddo ar fentrau gweithleoedd presennol gaiff eu cynnig gan y Cyngor, gan gynnwys y cynllun Parcio Eich Beic sy'n cynnwys standiau beic am ddim i sefydliadau a Hyfforddiant beicio am ddim i Oedolion ar gyfer unrhyw un sy'n byw, gweithio neu astudio yn y ddinas.**
- **Peilota gorsaf feicio i alluogi busnesau bach i rannu adnoddau ar gyfer cyflogeion yn teithio ar gefn beic.**

# Masnach



Ar ddiwrnod gwaith cyffredin caiff 286,000 o dripiau i siopau eu gwneud yng Nghaerdydd, gan godi i tua 388,000 o dripiau ar Sadwrn arferol. Mae canol Dinas Caerdydd yn gyrchfan siopa o bwys ar lefel genedlaethol gyda dros 40 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn. Mae siopau lleol, gan gynnwys y rhai mewn canolfannau lleol a rhanbarthol, yn cynnig gwasanaethau pwysig i gymunedau lleol ac yn cefnogi'r economi leol, yn enwedig busnesau bach.


Mae trigolion Caerdydd ar hyn o bryd yn gwneud tua 2.2 miliwn o dripiau siopa ar feic bob blwyddyn. Mae pwysigrwydd beicio fel dull cludiant ar gyfer siopa yn cynyddu, gyda chynnydd o 86% yn nifer y bobl sy'n ymweld â chanol y ddinas ar gefn beic dros y 10 mlynedd diwethaf.

Fel modd o deithio sy'n ddelfrydol ar gyfer teithiau byr, trefol, gall beicio gynnig modd i breswylwyr gyrraedd y siopau'n gyflym a chyfleus, gyda'r ddarpariaeth seilwaith gywir yn y lle cywir, gan gynnwys cyfyngiadau cyflymder ar strydoedd lleol ger siopau lleol a darpariaeth parcio beiciau am gyfnod byr mewn lleoliadau cyfleus. Bydd yr adnoddau hyn yn gwneud i siopau yng Nghaerdydd, o fewn canol y ddinas ac mewn canolfannau siopa lleol, yn fwy deniadol i ymweld â nhw ac yn annog preswylwyr i wario yn lleol. Bydd cynyddu'r nifer o deithiau siopa byrion ar gefn beic yn sicrhau y bydd digon o le ar y ffyrdd ac mewn meysydd parcio ceir ar gyfer y rheiny sydd ag angen gyrru.

## Mesurau i gynyddu beicio i siopau

- Gwelliannau i seilwaith i roi mynediad uniongyrchol a chyfforddus i leoliadau siopa
- Cynnig digon o lefydd parcio dros dro am gyfnod byr i feiciau mewn lleoliadau sy'n agos i siopao i ateb y galw

# Lleoliadau Masnach Allweddol yng Nghaerdydd




Mae lleoliadau siopa lleol i'w cael mewn amryw o lefydd ledled y ddinas. Mae hygyrchedd i siopau lleol yn bwysig i gefnogi'r economi leol a chreu cymdogaethau cynaliadwy sy'n braf byw ynddyn nhw.

## Camau Nesaf

- **Gwneud Achos Busnes i'r Ardal Gwella Busnes (AGB) i roi mesurau beic gyfeillgar ar waith i gynyddu nifer yr ymwelwyr o fewn yr AGB drwy hygyrchedd gwell i feiciau.**
- **Nodi a mynd i'r afael â chymalau coll i siopau lleol, gan gynnwys canolfannau lleol a rhanbarthol, trwy ddatblygu a rhoi'r Cynllun Rhwydwaith Beicio ar waith.**
- **Datblygu rhaglen flynyddol i gynyddu'r llefydd parcio beiciau mewn lleoliadau allweddol yng nghanol y ddinas.**
- **Datblygu rhaglen flynyddol i gynyddu'r llefydd parcio beiciau mewn lleoliadau allweddol mewn siopao lleol.**
- **Rhoi rhaglen ar waith i waredu beiciau a adawyd mewn lleoliadau parcio beiciau lle mae galw uchel yn gyson er mwyn gwella dengarwch ardaloedd siopa.**
- **Gwell hyrwyddo ar y cynllun Parcio Eich Beic i roi standiau Sheffield am ddim i siopau lleol.**

# Cyngor Dinas Caerdydd



Fel cyflogwr mawr yn y Ddinas, mae'n bwysig fod Cyngor Dinas Caerdydd yn hyrwyddo beicio i'w staff ar gyfer teithiau byrion i'r gwaith ac oddi yno, er mwyn arbed amser ac arian i'r cyngor a'i gyflogeion a chyfrannu at iechyd a llesiant ein gweithlu.

Mae rhai o'r mentrau sydd eisoes ar waith ar gyfer hyrwyddo beicio a rheoli'r galw am lefydd parcio ceir wedi eu nodi isod, fodd bynnag rydym yn cydnabod y gellir gwneud mwy a byddwn yn datblygu cynllun mewnol i hyrwyddo beicio'n wella i staff.

## ADNODDAU BEICIO I GYFLOGEION

- Parcio Beic
- Cyfleusterau newid a chawodydd yn Neuadd y Sir a Thŷ Willcox
- Cypyrddau cloi ym mhrif safleoedd y cyngor
- Cronfa feiciau ar gyfer teithio yn rhinwedd gwaith gyda system archebu ar-lein yn Neuadd y Sir a Thŷ Willcox
- Gwirio diogelwch blynyddol gyda Dr Bike.

## 1 MEWN 5

Fel rhan o'r rhaglen i leihau nifer yr adeiladau dan ofalaeth gweithredol y Cyngor, mae nifer y staff yn Neuadd y Sir wedi cynyddu, gan arwain at gynnydd yn y galw am lefydd parcio ceir. O ganlyniad, mae'r cyngor wedi cyflwyno cynllun rheoli parcio yn Neuadd y Sir lle gall staff sydd â thrwyddedau parcio, ddewis un diwrnod yr wythnos pan na allant barcio eu car ar y safle ac fe gânt eu hannog i deithio i'r gwaith ar eu diwrnod rhydd heb gar mewn modd cynaliadwy.

"Ar ôl gollwng fy mhlant yn yr ysgol yn y bore, roeddwn o hyd yn rhy hwyr i gael lle i barcio. Ysgogodd hyn fi i ystyried y dewisiadau. Trafnidiaeth Gyhoeddus: dim llwybr uniongyrchol o fy nghartref i Fae Caerdydd. Felly roedd yn mynd i olygu un ai 2 daith ar fws neu siwrne ar drên a bws, y byddai'r ddau yn cymryd mwy o amser na theithio gyda'r car. Penderfynais y byddai beicio yn well dewis oherwydd y byddai hefyd yn caniatáu i mi ffitio ymarfer corff i fy rwtîn dyddiol heb orfod meddwl amdano a heb orfod mynd i'r gampfa – diflas!!


Prynais feic ar y cynllun aberthu cyflog a dechreuais feicio'n rheolaidd i'r gwaith. Defnyddiais y cyfleusterau oedd ar gael gan gynnwys cawodydd, cypyrddau cloi, ystafell sychu a'r pwmp beic oedd ar y safle. Rwyf yn bendant wedi mwynhau buddion beicio o safbwynt cyfleustra (rwy'n osgoi tagfeydd traffig a'r ymladd am le parcio, ffitrwydd (dwi wedi colli pwys neu ddau) a hamdden. Gall fod yn weithgaredd cymdeithasol gwych o'i wneud gyda ffrindiau, ond rwyf hefyd wedi mwynhau'r teimlad o ryddid tra'n beicio a'r tawelwch maen ei roi i mi. Ysbrydolodd fi i dderbyn her feicio 5 diwrnod yn beicio dros Tanzania o droed Mynydd Kilimanjaro, trwy wersylloedd y Masai, tirweddau anhygoel ac ymlaen i Arusha. Gallech ei alw'n greisis canol oed; baswn i'n ei alw'n antur!!"

*Rachel Wetherill, Cydlynydd Proses Fusnes, Cyngor Dinas Caerdydd*

# Camau Nesaf

- **Datblygu cynllun gweithredu mewnol i wella'r hyrwyddo ar feicio i staff Cyngort Dinas Caerdydd gan gynnwys:**
    - Cymhellion cadarn i feicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus
    - Cynllun peilot i gynyddu'r defnydd o feicio i ddibenion gwaith, gan gynnwys sefydlu fflyd o feiciau at ddibenion gwaith ag amserlen cynnal a chadw rheolaidd.


VIKING



# 4. Cynllun Gweithredu

Mae'r cynllun gweithredu yn  sefydlu'r camau y byddwn yn eu cymryd dros y 10 mlynedd nesaf i wireddu ein gweledigaeth feicio

# Cynllun Gweithredu

**SEILWAITH**

| | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Datblygu dau brif lwybr corridor addas i bob oed a gallu o ran safon beicio, gan gynnwys llwybr Gogledd – De yn cysylltu safleoedd strategol yng ngogledd-ddwyrain Caerdydd â Bae Caerdydd drwy ganol y ddinas a llwybr Dwyrain – Gorllewin yn cysylltu safleoedd strategol yn Llaneirwg â safleoedd yng ngogledd-orllewin Caerdydd drwy Ganol y Ddinas** | | | | | | |
| Datblygu dyluniadau cysyniadol mewn ymgynghoriad â phreswylwyr, busnesau, grwpiau beicio a rhanddeiliaid eraill: | | ● | | | | |
| Dechrau ar adeiladu graddol | | | ● | | | |
| Cwblhau'r adeiladu | | | | ● | | |
| **Datblygu rhwydwaith pob oed a gallu o brif lwybrau ledled y ddinas** | | | | | | |
| Datblygu cynllun gweithredu cam wrth gam ar gyfer rhwydwaith llwybrau ledled y ddinas | | | | ● | | |
| Datblygu dyluniadau cysyniadol ar gyfer dau brif lwybr corridor ychwanegol a danlinellwyd yn y cynllun menw ymgynghoriad â phreswylwyr, busnesau, grwpiau beicio a rhanddeiliaid eraill: | | | | | ● | |
| Adeiladu cam wrth gam ar y coridorau prif lwybr a danlinellwyd yn y cynllun | | | | | | ● |
| **Datblygu a rhoi Strategaeth Symudedd Canol y Ddinas ar gyfer pob dull teithio trwy Ganol y Ddinas ar waith** | | | | | | |
| Datblygu dyluniadau cysyniadol gan gynnwys cysylltiadau beicio trwy Ganol y Ddinas mewn ymgynghoriad â phreswylwyr, busnesau, grwpiau beicio a rhanddeiliaid eraill | | ● | | | | |
| Dechrau ar yr adeiladu cam wrth gam ar y cysylltiadau beicio trwy ganol y ddinas fel rhan o'r ddarpariaeth ar gyfer pob modd teithio sydd yn Strategaeth Symudedd Canol y Ddinas | | | ● | | | |
| Cwblhau'r gwaith o greu cysylltiadau beicio trwy ganol y ddinas | | | | ● | | |
| **Datblygu a rhoi cynllun a flaenoriaethwyd ar waith i fynd i'r afael â chymalau coll ar draws y rhwydwaith feicio ehangach.** | | | | | | |
| Datblygu cynllun wedi ei flaenoriaethu i fynd i'r afael â chymalau coll ar draws y rhwydwaith ehangach, mewn ymgynghoriad â phreswylwyr, busnesau, grwpiau beicio a rhanddeiliaid eraill. | | ● | | | | |
| Sefydlu cyllideb cyfalaf i fynd i'r afael â'r cymalau coll a flaenoriaethwyd ar sail flynyddol | | ● | | | | |
| Cwblhau'r cynlluniau a flaenoriaethwyd i lenwi'r cymalau coll | | | ● | ● | ● | ● |
| **Datblygu canllawiau newydd ar gyfer dylunio seilwaith feicio pob oed a gallu yng Nghaerdydd, gan ystyried hefyd Ganllaw Dylunio Teithio Llesol Llywodraeth Cymru.** | | ● | | | | |
| **Datblygu a darparu rhaglen hyfforddi staff ar roi cynllun seilwaith feicio dda ar waith** | | ● | | | | |
| **Cyflwyno'r Cynllun Rhwydwaith Terfynol fel rhan o'r map Rhwydwaith Integredig i'w gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru** | | ● | | | | |
| **Sefydlu cyllideb wedi ei diogelu ar gyfer cynnal a chadw'r llwybrau sy'n bodoli eisoes** | | ● | | | | |
| **Lansio cynllun llogi beiciau cyhoeddus ar y stryd** | | ● | | | | |
| **Rhoi Hyb Beicio ar waith gyda pharcio wedi ei ddiogelu ar gyfer 500 beic fel rhan o ailddatblygiad y Sgwâr Canolog** | | | ● | | | |

| | | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SEILWAITH | **Rhoi’r cynllun cam wrth gam i ehangu’r parthau 20mya ar waith:** | | | | | | |
| | Ardaloedd yn cynnwys Glan-yr-Afon a Threganna | ● | | | | | |
| | Ardaloedd yn cynnwys Gabalfa | | ● | | | | |
| | Ardaloedd yn cynnwys Adamsdown, Butetown a Grangetown | | | ● | | | |
| | Ardaloedd yn cynnwys Sblot | | | | | ● | |
| | Ardaloedd yn cynnwys Penylan a Cathays | | | | | | ● |
| YSGOLION | **Nodi’r cymalau seilwaith coll i ysgolion sy’n bodoli eisoes, gan gynnwys ymgysylltu gweithredol gyda phlant ysgol mewn cydweithrediad â Sustrans trwy gyfrwng project Ysgolion Llesol Llywodraeth Cymru** | | ● | | | | |
| | **Nodi cyfleon i wella cysylltiadau seilwaith i safleoedd ysgolion newydd mewn cydweithrediad â’r project Trefniadaeth Ysgolion** | | ● | | | | |
| | **Datblygu rhaglen fanwl i hyrwyddo beicio i’r ysgol** | | | | | | |
| | Rhedeg cynllun peilot mewn ysgol yn cynnwys mesurau a gwelliannau corfforol meddalach | | | ● | | | |
| | Rhoi’r rhaglen lawn ar waith | | | | ● | | |
| | **Nodi cynllun i wella’r ddarpariaeth o ran parcio diogel dan do i feiciau mewn ysgolion** | | ● | | | | |
| GWEITHLEOEDD | **Gwella’r ddarpariaeth wybodaeth a’r cyngor ar weithleoedd o ran arfer da i hyrwyddo beicio i gyflogeion** | | ● | | | | |
| | **Gwella’r hyrwyddo ar y cynlluniau gweithleoedd presennol gaiff eu cynnig gan y Cyngor, gan gynnwys y cynllun Parcio Eich Beic sy’n cynnwys stondiau beicio am ddim i sefydliadau a Hyfforddiant Beicio Am Ddim i Oedolion sy’n byw, gweithio neu’n astudio yn y ddinas** | | ● | | | | |
| | **Peilota gorsaf feicio i alluogi busnesau bach i rannu cyfeusterau ar gyfer cyflogeion sy’n teithio gyda beic** | | | ● | | | |
| | **Sefydlu Grŵp Seiclo Busnes i rannu gwybodaeth a chyfathrebu anghenion busnes i’r Cyngor** | | ● | | | | |
| MASNACH | **Gwneud Achos Busnes i’r Ardal Gwella Busnes (AGB) i roi mesurau hybu beicio ar waith i gynyddu nifer y bobl ddaw i’r Ardal Gwella Busnes trwy wella’r hygyrchedd beicio** | | ● | | | | |
| | **Datblygu rhaglen flynyddol i gynyddu darpariaeth parcio ar gyfer beiciau mewn lleoliadau allweddol yng nghanol y ddinas** | | ● | | | | |
| | **Datblygu rhaglen flynyddol i gynyddu darpariaeth parcio beiciau mewn siopau lleol** | | ● | | | | |
| | **Rhoi rhaglen ar waith i waredu beiciau a adawyd mewn lleoliadau lle mae galw uchel am lefydd parcio beiciau yn rheolaidd** | | ● | | | | |
| | **Gwell hyrwyddo ar y cynllun Parcio Eich Beic i roi standiau Sheffield am ddim i siopau lleol** | | ● | | | | |
| CDC | **Datblygu cynllun gweithredu mewnol i wella hyrwyddo beicio i staff Cyngor Dinas Caerdydd, gan gynnwys cymhellion cadarn i feicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, a sefydlu cronfa fflyd feiciau newydd** | | ● | | | | |
| | **Creu Grŵp Llywio Beicio gyda’r aelodaeth yn agored i fusnesau, sefydliadau sector cyhoeddus a grwpiau beicio.** | | ● | | | | |
| | **Adolygu cynnydd ar y camau gweithredu a nodi unrhyw gamau gweithredu ychwanegol er mwyn targedu partneriaid allweddol eraill erbyn 2016** | | | | | ● | |

# Strategaeth Feicio Caerdydd: Amserlen

Y ddogfen hon yw'r Strategaeth Feicio Ddrafft ar gyfer ymgynhoriad cyhoeddus. Bydd y camau nesaf ar gyfer cyhoeddi Strategaeth Feicio newydd i Gaerdydd fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Diwedd yr Ymgynghoriad Cyhoeddus** | 28 MAWRTH 2017 |
| **Adolygu Ymatebion i'r Ymgynghoriad** | EBRILL I MAI 2017 |
| **Diwygiadau a Wnaed i'r Strategaeth Feicio Lle Bo Angen** | MAI 2017 |
| **Cymeradwyaeth y Cyngor ar y Strategaeth Feicio** | GORFENNAF 2017 |
| **Cyhoeddi'r Strategaeth Feicio** | GORFENNAF 2017 |

CARDIFF
CAERDYDD